

# Cyngor ac Arweiniad ar Lifogydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau



---

**Cyngor defnyddiol am  
beth i'w wneud cyn, yn  
ystod ac ar ôl llifogydd**

## Cyngor llifogydd – byddwch yn barod am lifogydd

- Darganfyddwch os ydych mewn perygl o lifogydd drwy ffonio Llinell Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar **0345 988 1188** neu gwiriwch y mapiau llifogydd ar [www.naturalresourceswales/flooding](http://www.naturalresourceswales/flooding)
- Gwneud gynllun llifogydd gyda'r wybodaeth y dylech wybod yn ystod llifogydd, fel manylion cyswllt pobl y gallech fod angen siarad â nhw mewn argyfwng, a rhifau polisiau yswiriant. Gallwch lawrlwytho templed cynllun llifogydd o [www.naturalresources.wales/flooding](http://www.naturalresources.wales/flooding)
- Ystyriwch brynu cynnyrch gwarchod rhag llifogydd eich hun er mwyn lleihau effaith llifogydd ar eich cartref neu'ch busnes. Mae cyngor a chanllawiau ar gynnyrch gwarchod rhag llifogydd ar [www.bluepages.org.uk](http://www.bluepages.org.uk)
- Gwiriwch eich yswiriant adeiladau a chynnwys – a yw'n cynnwys llifogydd? Siaradwch gyda'ch cwmni yswiriant ynglŷn â **FloodRe**, cynllun gan y llywodraeth i'ch cynorthwyo i ddarganfod yswiriant fforddiadwy os yw eich cartref mewn perygl gan lifogydd: [www.floodre.co.uk](http://www.floodre.co.uk)
- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i ddiffodd eich cyflenwadau trydan, nwy a dŵr
- Cadwch eitemau o werth personol mewn lle diogel y tu hwnt i gyrraedd llifogydd. Peidiwch ag aros hyd nes bydd llifogydd cyn gwneud hyn!

## Gwnewch becyn llifogydd

**Dylai'ch pecyn llifogydd gynnwys, er enghraifft:**

- Dylai'ch pecyn llifogydd gynnwys, er enghraifft:
- Y daflen hon a'ch cynllun llifogydd wedi ei gwblhau
- Rhestr o rifau cyswllt pwysig
- Copïau o ddogfennau yswiriant
- Tortsh a radio (un ai gyda handlen i'w troi, neu batris, a batris sbâr)
- Ffôn a phecyn gwefru cludadwy
- Pecyn cymorth cyntaf a meddyginiaeth presgripsiwn
- Eitemau hylendid personol a bwyd babi
- Dŵr Potel
- Dillad cynnes sy'n dal dŵr a welintons



## Rhybuddion Llifogydd

Sicrhewch eich bod yn gwybod beth yw'r codau rhybudd o lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyhoeddi rhybudd o lifogydd.

### Mae llifogydd yn bosib. Byddwch yn barod.

Defnyddir y rhybudd hwn rhwng dwy awr a dau ddiwrnod cyn llifogydd

- Byddwch yn barod i weithredu ar eich cynllun llifogydd
- Paratowch becyn llifogydd o eitemau hanfodol
- Monitrwch lefelau dŵr lleol a'r rhagolygon llifogydd

### Disgwylir llifogydd. Gweithredwch ar unwaith.

Defnyddir y rhybudd hwn rhwng 30 munud ac un diwrnod cyn llifogydd

- Symudwch deulu, anifeiliaid anwes a phethau gwerthfawr i le diogel
- Diffoddwch gyflenwadau nwy, trydan a dŵr os yw'n ddiogel gwneud hynnu
- Rhowch offer gwarchod rhag llifogydd yn eu lle

### Llifogydd difrifol Perygl i fywyd.

Defnyddir y rhybudd hwn pan fydd perygl sylweddol i fywyd gan lifogydd

- Arhoswch mewn lle diogel gyda ffordd o ddianc.
- Byddwch yn barod i adael eich cartref
- Cydweithredwch gyda'r gwasanaethau argyfwng
- Galwch 999 os ydych mewn perygl uniongyrchol
- Gwrandewch ar radio a theledu lleol i gael y diweddaraf am y tywydd
- Dilynwch dudalennau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter y Cyngor [@CBSConwy](#)

Cofrestrwch ar gyfer rhybuddion llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar [www.naturalresources.wales/flooding](http://www.naturalresources.wales/flooding) neu drwy ffonio 0345 988 1188

Cofrestrwch am hysbysiadau drwy gyfrif Twitter [@NatResWales](#)  
Gallwch hefyd ddewis derbyn yr hysbysiadau hyn ar neges destun

## Yn ystod llifogydd

### Os yw eich eiddo mewn perygl

- Rhowch offer gwarchod rhag llifogydd yn eu lle
- Ewch â phethau gwerthfawr i'r man uchaf posibil
- Symudwch eich car i dir uwch, os yw hynny yn ddiogel
- Symudwch anifeiliaid anwes i le diogel

### Os oes yn rhaid i chi adael eich cartref ar frys

- Paciwch fag gyda dillad cynnes sbâr, offer ymolchi a hylendid personol, offer cymorth cyntaf, meddyginiaeth ac eitemau gofal babi ac unrhyw beth arall sydd ei angen arnoch
- PEIDIWCH a chyffwrdd ffynonellau trydan os ydych yn sefyll mewn dŵr
- Diffoddwch gyflenwadau nwy, trydan a dŵr os yw'n ddiogel gwneud hynny
- Gwnewch drefniadau ar gyfer eich anifeiliaid anwes
- Dywedwch wrth deulu a ffrindiau lle rydych yn mynd
- Ewch a'ch pecyn llifogydd ac ewch i rywle diogel

### Pwysig – byddwch yn ddiogel, mae llifogydd yn beryglus

- Gwrandewch ar gyngor gan wasanaethau argyfwng
- Cadwch blant a phobl bregus yn ddiogel
- Sicrhewch eich bod yn osgoi cerdded drwy ddŵr llifogydd, nentydd neu afonydd sydd â llif uchel Gall 15cm (6 modfedd) o ddŵr sy'n symud yn sydyn eich taro drosodd
- PEIDIWCH a gyrru drwy lifogydd – mae 80% o farwolaethau oherwydd llifogydd yn digwydd mewn cerbydau
- Gall llifogydd guddio peryglon cudd fel gorchuddion tyllau archwilio a phethau miniog



## Beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn ystod llifogydd?

- Rydym yn darparu cyngor a chanllawiau i drigolion a busnesau drwy'n llinell ymateb i lifogydd 24 awr: **01492 575337**
- Rydym yn ymateb i ddigwyddiadau ac yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru
- Rydym yn defnyddio bagiau tywod i droi cwrs y dŵr sy'n dod o gyliau, ceuffosydd, afonydd a nentydd a gynhelir gan y Cyngor. Os oes rhai ar gael, rydym yn gosod bagiau tywod mewn lleoliadau lle mae risg i fywyd neu eiddo. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan swyddogion sydd ar y safle

Yn ystod llifogydd difrifol, mae adnoddau yn gyfyngedig felly mae'n bosib na allwn ymateb i bob cais ym mhob ardal. Byddwn wastad yn gwneud ein gorau, ond byddwn yn blaenoriaethau'r rhai sydd angen y mwyaf o gymorth, fel pobl bregus neu gymunedau mawr sydd mewn perygl difrifol. Ein prif flaenoriaeth bob amser yw cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Nid oes cyfrifoldeb cyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu cymorth i drigolion yn ystod llifogydd, ond rydym yn ceisio sicrhau y gallwn ymateb mewn argyfwng er mwyn arbed bywydau ac eiddo.

Dydyn ni ddim yn rhannu bagiau tywod i eiddo preifat cyn llifogydd a dydyn ni ddim yn rhoi bagiau tywod i eiddo masnachol unrhyw bryd.



## Ar ôl llifogydd

### Cysylltwch â'ch cwmni yswiriant cyn gynted â phosib

- Gofynnwch pa mor hir fydd hi cyn iddyn nhw ddod i'ch gweld
- Gwiriwch a oes ganddynt gwmni a fydd yn glanhau eich tŷ neu os oes raid i chi wneud hynny eich hun
- Siarad efo nhw cyn taflu unrhyw eitemau a ddifrodwyd neu wneud unrhyw waith atgyweirio
- Tynnwch luniau o'r difrod i'ch eiddo



### Glanhau eich eiddo

- Gwisgwch fenyg a dillad sy'n dal dŵr – mae'n bosib bod dŵr y llifogydd wedi ei halogi
- Cadwch lygad allan am wydr wedi torri ac eitemau peryglus eraill
- Gallwch ddefnyddio cynnyrch glanhau cartref arferol
- Agorwch ffenestri a drysau os ydych yn sychu'ch eiddo yn naturiol
- Caewch ffenestri a drysau os ydych yn defnyddio dadleithydd i sychu'ch eiddo



### Ailgysylltu gwasanaethau i'ch eiddo

- Cysylltwch â'ch cyflenwyr trydan a dŵr i weld os yw cyflenwadau wedi eu hailgysylltu yn eich ardal
- Dylai gwaith trydan gael ei wirio gan drydanwr cymwys cyn i chi roi'r trydan yn ôl ymlaen
- Dylai peiriannwr wirio gwres canolog nwy a thrydan cyn i chi eu troi yn ôl ymlaen
- Golchwch eich dwylo'n drylwyr os ydych wedi bod mewn cysylltiad â dŵr o'r llifogydd



## Manylion Cyswilt Defnyddiol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**  
 Ymateb i lifogydd 24 awr: 01492 575337  
[www.conwy.gov.uk/flooding](http://www.conwy.gov.uk/flooding)  
 Facebook a Twitter: @CBSConwy

**Cyfoeth Naturiol Cymru**  
 Llinell Llifogydd: 0345 988 1188  
[www.naturalresources.wales/flooding](http://www.naturalresources.wales/flooding)  
 Facebook a Twitter: @NatResWales

**Dŵr Cymru Welsh Water**  
 Llifogydd o garthffosydd ac argyfyngau carthffosydd: 0800 085 3968  
[www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com)  
 Facebook: @DwrCymruWelshWater  
 Twitter: @DwrCymru

**Met Office**  
[www.metoffice.gov.uk](http://www.metoffice.gov.uk)

**National Flood Forum**  
 01299 403055  
[www.nationalfloodforum.org.uk](http://www.nationalfloodforum.org.uk)

**Toriadau Pŵer – SP Energy Networks**  
 Rhowch wybod am doriad i gyflenwad trydan neu ddifrod i linellau pŵer trydan: ffoniwch 105  
[www.spenergynetworks.co.uk](http://www.spenergynetworks.co.uk)  
 Twitter: @SPEnergyNetwork



Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a erill.